We would like to remind our patients that it is no longer necessary to call the practice at 8:00am in order to secure an appointment.

General practices are working hard to improve access and offer a range of ways for patients to get the care they need, without the stress of calling at peak times.

Patients can submit requests online using e-consult, allowing them to describe their symptoms and receive advice, or an appointment without needing to wait on the phone. Patients can access e-consult via our website: www.ystwythmedicalgroup.co.uk

Patients can use our website to self-refer to many services - Self Referrals - Ystwyth Medical Group

For minor illnesses and common ailments, patients in Wales can access support through the NHS Wales Common Ailments Service. More information is available here: Common ailments service - Hywel Dda University Health Board

Community pharmacies also offer fast, convenient access to expert advice and treatment. Pharmacists are highly trained healthcare professionals who can help with a wide range of conditions, often without the need for a GP appointment. More information on this service, including advice and treatment from community pharmacies, as well as dental and optometry services can be found here:
Help Us to Help You | GOV.WALES

Patients are also encouraged to follow the “Choose Well” guidance, ensuring they use the most appropriate service for their needs. This helps keep GP appointments available for those who need them most. NHS 111 Wales - Choose Well

If your condition is not urgent, you can contact your GP practice later in the day to arrange a routine appointment. Appointments are available throughout the day and offer a variety of consultation options with various clinicians.

If you need to contact the practice regarding private letters, or requests for extracts from your medical records, change your address etc we kindly ask that, if possible, you use the forms available on our website. This helps us process your request more efficiently and ensures it reaches the appropriate team without delay. Services - Ystwyth Medical Group

By using the full range of available services, patients can access care more easily while helping reduce pressure for appointments.

For urgent or serious symptoms, patients should continue to seek immediate medical attention through the appropriate emergency services.

Hoffem atgoffa ein cleifion nad oes angen ffonio'r practis am 8:00am mwyach er mwyn sicrhau apwyntiad.

Mae practisau cyffredinol yn gweithio'n galed i wella mynediad ac yn cynnig amrywiaeth o ffyrdd i gleifion gael y gofal sydd ei angen arnynt, heb straen ffonio ar adegau prysur.

Gall cleifion gyflwyno ceisiadau ar-lein gan ddefnyddio e-ymgynghoriad, gan ganiatau iddynt ddisgrifio eu symptomau a derbyn cyngor, neu apwyntiad heb orfod aros ar y ffôn. Gall cleifion gael mynediad at e-ymgynghoriad trwy ein gwefan: Hafan - Grŵp Meddygol Ystwyth

Gall cleifion hefyd ddefnyddio ein gwefan i gyfeirio eu hunain at lawer o wasanaethau – am ragor o wybodaeth gweler ein gwefan - Hunanatgyfeiriadau - Grŵp Meddygol Ystwyth

Ar gyfer mân afiechydon ac anhwylderau cyffredin, gall cleifion yng Nghymru gael cymorth drwy Wasanaeth Anhwylderau Cyffredin GIG Cymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: Gwasanaeth anhwylderau cyffredin - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Mae fferyllfeydd cymunedol hefyd yn cynnig mynediad cyflym a chyfleus at gyngor a thriniaeth arbenigol. Mae fferyllwyr yn weithwyr gofal iechyd proffesiynol hyfforddedig iawn a all helpu gydag ystod eang o gyflyrau, yn aml heb yr angen am apwyntiad gyda meddyg teulu. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn, gan gynnwys cyngor a thriniaeth gan fferyllfeydd cymunedol, yn ogystal â gwasanaethau deintyddol ac optometreg yma: Helpwch Ni i'ch Helpu Chi | LLYW.CYMRU

Anogir cleifion hefyd i ddilyn y canllawiau "Dewis Doeth", gan sicrhau eu bod yn defnyddio'r gwasanaeth mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion. Mae hyn yn helpu i gadw apwyntiadau meddyg teulu ar gael i'r rhai sydd eu hangen fwyaf. GIG 111 Cymru - Dewis Doeth

Os nad yw eich cyflwr yn un brys, gallwch gysylltu â'ch practis meddyg teulu yn ddiweddarach yn y dydd i drefnu apwyntiad arferol. Mae apwyntiadau ar gael drwy gydol y dydd ac maent yn cynnig amrywiaeth o opsiynau ymgynghori gyda chlinigwyr amrywiol.

Os oes angen i chi gysylltu â'r practis ynghylch llythyrau preifat, neu geisiadau am ddarnau o'ch cofnodion meddygol, newid eich cyfeiriad ac ati, gofynnwn yn garedig, os yn bosibl, eich bod yn defnyddio'r ffurflenni sydd ar gael ar ein gwefan. Mae hyn yn ein helpu i brosesu eich cais yn fwy effeithlon ac yn sicrhau ei fod yn cyrraedd y tîm priodol heb oedi. Gwasanaethau - Grŵp Meddygol Ystwyth

Trwy ddefnyddio'r ystod lawn o wasanaethau sydd ar gael, gall cleifion gael mynediad at ofal yn haws wrth helpu i leihau'r pwysau ar gyfer apwyntiadau.

Ar gyfer symptomau brys neu ddifrifol, dylai cleifion barhau i geisio sylw meddygol ar unwaith trwy'r gwasanaethau brys priodol.